# WRECSLAM!

THEATR CYMRU

Theatr Clwyd

## Cwestiynau Cyffredin

**Beth yw nod y prosiect?**

Mae Theatr Cymru a Theatr Clwyd yn chwilio am ddramâu byrion sy’n feiddgar, cyfoes a doniol i’w perfformio yng Nghaffi Maes B yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

Ry’n ni’n chwilio am hyd at 4 dramodydd gyda digon i’w ddweud ac ry’n ni’n arbennig o awyddus i glywed gan awduron sy’n byw yn, neu sydd â chysylltiadau i, Ogledd-Dwyrain Cymru. Ry’n ni’n croesawu syniadau sy’n archwilio pobl, llefydd a lleisiau Wrecsam.

Yn adeiladu ar lwyddiant Ha/Ha (2024) a Rŵan/Nawr (2023), mae hefyd diddordeb gyda ni mewn comedi ym mhob ffurf ac ry’n ni eisiau gweld dramâu sy’n cydio yn nychymyg cynulleidfa’r ŵyl. Bydd cast o 4 a cherddor ar gael i’r dramodwyr.

Mae rhaglen **Wrecslam!** yn cefnogi dramodwyr i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu a dramatwrgol trwy greu dramâu gwreiddiol 10 munud o hyd. Bydd y broses yn cynnwys gweithdai dramatwrgol a dosbarthiadau meistr, cyn cyflwyno’r dramâu gorffenedig mewn cyfres o berfformiadau yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025.

Mae **Wrecslam!** yn parhau’r bartneriaeth hir-dymor rhwng Theatr Cymru a Theatr Clwyd i ddatblygu a chynhyrchu dramâu newydd 10 munud.

**Pa gefnogaeth fydd ar gael gan Theatr Cymru a Theatr Clwyd?**

Bydd tîm Theatr Cymru a Theatr Clwyd yn cefnogi pob unigolyn sy’n cael eu dewis i gymryd rhan yn **Wrecslam!** Yn ystod y broses, byddwn yn cydlynu sesiynau adborth, sesiynau dramatwrgol yn

ogystal â gweithdy ar-lein gydag arbenigwr ym maes theatr. Daniel Lloyd a Rhian Blythe, cyd gyfarwyddwyr **Wrecslam!**, fydd yn arwain y prosiect, gyda chefnogaeth gan dimoedd creadigol ehangach Theatr Cymru a Theatr Clwyd. Gavin Richards, cynhyrchydd Theatr Cymru fydd yn cydlynu'r prosiect gyda chefnogaeth Branwen Jones, Cynhyrchydd Theatr Clwyd.

**Beth yw'r amserlen?**

| | |
|---|---|
| **03 Chwefror 2025** | **Cyfnod mynegi diddordeb yn agor**<br>Gallwch wneud hyn drwy lenwi ffurflen Mynegi Diddordeb cychwynnol syml yn y Gymraeg drwy Microsoft Forms, neu gyflwyno cais fideo hyd at 2 funud o hyd, neu drwy WhatsApp 07903 842616. Bydd y ffurflen yn cynnwys Ffurflen Monitro Cydraddoldeb. |
| **26 Chwefror 2025, 12pm** | **Dyddiad cau mynegi diddordeb**<br>Bydd tîm Theatr Cymru a Theatr Clwyd yn darllen ac ystyried pob cais. |
| **05 Mawrth 2025** | **Gwahodd ceisiadau llawn**<br>Bydd 8 ymgeisydd yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais llawn. Bydd y cais yn cynnwys braslun ac enghraifft o syniad am ddrama 10 munud o hyd. Byddwn yn darparu ffurflen gais yn ogystal a manylion ynghylch cyflwyno cais fideo. Byddwn hefyd yn cynnig ffi o £50. |
| **31 Mawrth 2025, 12pm** | **Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau llawn**<br>Bydd tîm Theatr Cymru a Theatr Clwyd yn darllen ac ystyried y ceisiadau llawn. |
| **14 Ebrill 2025** | **Cynnig comisiynau**<br>Byddwn yn cysylltu gyda phawb a gyflwynodd gais llawn erbyn y dyddiad yma, ac yn cynnig hyd at 4 comisiwn. |
| **28 Ebrill 2025** | **Dosbarth-feistr**<br>Bydd dosbarth-feistr yn archwilio strwythur, cymeriadu a dramatwrgaeth ar 28ain Ebrill. Bydd y gweithdy yma yn digwydd ar-lein. Gofynnwn yn garedig i'r ymgeiswyr llwyddiannus i fod ar gael ar gyfer y gweithdy yma. |
| **19 Mai 2025** | **Drafft 1**<br>Bydd gofyn i chi gyflwyno drafft cyntaf eich drama 10 munud erbyn 12yh. Bydd sesiwn adborth un-wrth-un yn dilyn y dyddiad yma (i'w drefnu ar amser sy'n gyfleus). |
| **16 Mehefin 2025** | **Drafft 2**<br>Bydd gofyn i chi gyflwyno drafft 2 erbyn 12yh. Bydd sesiwn adborth un-wrth-un yn dilyn y dyddiad yma (i'w drefnu ar amser sy'n gyfleus). |
| **23 Mehefin 2025** | **Dosbarth-feistr**<br>Bydd dosbarth-feistr gydag awduron proffesiynol yn cael ei gynnal ar 23ain Mehefin. Bydd y gweithdy yma yn digwydd ar-lein.<br>Gofynnwn yn garedig i'r ymgeiswyr llwyddiannus i fod ar gael ar gyfer y gweithdy yma. |
| **01 Gorffennaf 2025** | **Drafft Terfynol**<br>Bydd gofyn i chi gyflwyno drafft terfynol erbyn 12yh. |
| **07 Gorffennaf 2025** | **Gweithdy sgript gyda chast**<br>Gweithdy ar-lein gydag actorion **Wrecslam!** yn darllen y dramâu deg munud ar 7fed Gorffennaf. Bydd y gweithdy yma yn digwydd ar-lein. Gofynnwn yn garedig i'r ymgeiswyr llwyddiannus i fod ar gael ar gyfer y gweithdy yma. |
| **21 Gorffennaf 2025 – 01 Awst 2025** | **Ymarferion**<br>Bydd cyfle i ymweld â'r ystafell – mae'r dyddiau hyn i'w cadarnhau. |
| **04 Awst 2024 – 07 Awst 2024** | **Perfformiadau**<br>4 perfformiad yng Nghaffi Maes B yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam. |

**Ydw i'n gallu cynnwys CV fel atodiad ychwanegol wrth fynegi diddordeb i gymryd rhan?**

Mae croeso i chi atodi CV neu gyflwyno manylion eich CV drwy fideo os ydych yn dymuno, ond does dim rheidrwydd arnoch i wneud hynny.

**Beth yw'r telerau?**

Os gwahoddir chi i gyflwyno cais llawn a braslun am ddrama 10 munud o hyd, telir £50 ar eu cyflwyno ac ar lenwi Ffurflen Cyflenwyr Newydd (os yn berthnasol) a chyflwyno anfoneb.

Os gwahoddir chi i fod yn rhan o **Wrecslam!,** byddwch yn derbyn comisiwn o £906.66.

Lle bo hynny'n briodol, telir costau teithio, llety, cynhaliaeth a trefniadau hygyrchedd. Gofynnwn i chi lenwi Ffurflen Mynediad.

**Beth os nad wyf ar gael y dyddiau a nodir?**

Os nad ydych chi ar gael ar gyfer ambell ddiwrnod yn yr amserlen uchod, byddwn yn ceisio bod mor hyblyg a sy'n bosib..Os am drafod unrhyw fater yn ymwneud â'r dyddiadau neu eich argaeledd, cysylltwch â Gavin Richards ar gavin.richards@theatr.com.

**Beth os ydw i wedi ymgeisio i fod yn rhan, neu wedi bod yn rhan, o cynlluniau blaenorol** Ha/Ha (2024) neu Rŵan/Nawr (2023)**?**

Mae croeso i chi fynegi diddordeb eto gyda syniad newydd.

**Oes yna unrhyw gyfyngiadau?**

Mae **Wrecslam!** yn agored i unrhyw artist yng Nghymru sydd dros 18 oed ac yn medru'r Gymraeg. neu'n awyddus i gynyddu eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.

**Dydw i erioed wedi ysgrifennu ar gyfer theatr o'r blaen, ydw i'n gymwys i ymgeisio?**

Ry'n ni'n croesawu ceisiadau gan unrhyw un sydd â diddordeb neu uchelgais i ysgrifennu, beth bynnag yw eich profiad. S'dim rhaid bod yn sgwennwr proffesiynol neu fod wedi gweithio yn y sector. Mae croeso i artistiaid ar ddechrau eu gyrfa ac artistiaid profiadol.

**Dydw i ddim yn hyderus yn ysgrifennu/siarad Cymraeg. Ydw i'n cael mynegi diddordeb?**

Bydd angen cyflwyno eich mynegiant o ddiddordeb a chais llawn yn y Gymraeg, a bydd disgwyl i'r gwaith a ddatblygir fod yn bennaf yn y Gymraeg, ond gallwn eich cefnogi i wneud hynny. Mae datblygu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y celfyddydau yn hynod bwysig i ni fel cwmni.

**Nid yw fy nghwestiwn wedi ei ateb uchod, gyda phwy ddylwn i gysylltu?**

Os nad yw'ch cwestiwn wedi'i ateb uchod, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, cysylltwch â Gavin.richards@theatr.com